UK Government

# System Pwyntiau Mewnfudo’r DU: **Gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr o’r UE**



# System Pwyntiau Mewnfudo (Points-Based Immigration System) DU: Gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr o'r UE

Byddwch cystal â nodi bod 'Dinasyddion yr EU' y cyfeirir atynt yn y cyfarwyddyd hwn yn cynnwys dinasyddion yr UE, AEE a'r Swistir. Dylai'r sawl sydd wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig (DU) cyn Rhagfyr 31, 2020 wneud cais i sef **EU Settlement Scheme** a bydd ganddyn nhw hyd at Fehefin 30, 2021 i wneud cais.

Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd ar Ionawr 31, 2020. Daeth y rhyddid i symud rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd i ben ar Ragfyr 31, 2020. Yna, ar Ionawr 1, 2021 gweithredwyd system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau gan y DU, sydd yn blaenoriaethu sgiliau a thalent uwchben y lle mae person yn hanu.

Mae'r DU yn croesawu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn o bob man ar draws y byd. O dan y system newydd, fe allwch chi, fel dinesydd yr UE, barhau i ymweld â'r DU heb orfod gwneud cais am fisa ac yn y rhan fwyaf o achosion, fe allwch aros am hyd at chwe mis. Gallwch gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau gan gynnwys twristiaeth, ymweld â theulu a ffrindiau, astudio byrdymor a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â busnes, fel digwyddiadau a chynadleddau. Gallwch ddod mewn i'r DU sawl gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw, ond does dim hawl gyda chi i fyw yn y DU drwy gyfrwng ymweliadau cyson neu olynol.

Mae statws dinasyddion Iwerddon yn parhau i gael ei warchod fel rhan o **drefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin (Common Travel Area)**. Felly, does dim angen caniatâd ar ddinasyddion Iwerddon i ddod i'r DU (heblaw am mewn nifer cyfyngedig iawn o amgylchiadau), ac o ganlyniad dydyn nhw ddim yn gymwys i wneud cais o dan y system pwyntiau ymfudo newydd.

Os ydych yn ddinesydd yr UE nad sy'n Wyddel neu Wyddeles, ac yn dod i mewn i'r DU o Iwerddon, ceir gwahanol gyfyngiadau mewnfudo ar gyfer ymweld â'r DU. Gallwch ymweld â'r DU am hyd at chwe mis ar eich ymweliad cyntaf. Os byddwch yn dychwelyd i Iwerddon a'ch bod yn dymuno ymweld â'r DU eto o'r fan honno, bydd hawl gyda chi i aros yn y DU am ddau fis yn unig. Fodd bynnag, os byddwch yn gadael yr **Ardal Deithio Gyffredin (Common Travel Area)**, fe fydd hawl gyda chi o hyd i ymweld â'r DU am hyd at chwe mis ar eich ymweliad nesaf gan gynnwys mynd drwy Iwerddon.



## Ymweld â'r DU

Gallwch barhau i ymweld â'r DU am hyd at 6 mis heb wneud cais am fisa ac fe gewch gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau:

- ddod ar wyliau neu ymweld â theulu a ffrindiau am hyd at chwe mis
- astudio ar gwrs byrdymor
- gynnal gweithgareddau busnes, fel mynd i gyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau
- ddod i'r DU i negodi a llofnodi cytundebau busnes
- gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon neu ddiwylliannol
- os ydych yn academydd blaengar, gyflwyno eich ymchwil diweddaraf; neu os ydych yn wyddonydd, gallwch rannu eich gwybodaeth gyda chydweithwyr ar brojectau rhyngwladol
- os ydych wedi eich cyflogi dramor, ddod i gefnogi cwmnïau a brynodd nwyddau gan eich cwmni neu gydweithio gyda busnes yn y DU sy'n cyflenwi eich cyflogwr dramor
- gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau taledig a ganiateir, fel perfformio mewn digwyddiadau diwylliannol.

**Gellir dod o hyd i'r rhestr lawn o weithgareddau a ganiateir i ymwelwyr ar GOV.UK.**

Does dim hawl gyda chi:

- i weithio
- i fyw yn y DU am gyfnodau maith drwy wneud ymweliadau rheolaidd
- i gael **arian cyhoeddus**.

Bydd angen i chi wneud cais am **fisa** os ydych yn dymuno gweithio yn y DU neu astudio yn y DU am fwy na chwe mis.

Os cawsoch eich gwahodd i'r DU ar y sail eich bod yn arbenigwr yn eich proffesiwn ac y byddwch yn cael eich talu yn y DU, fe allech ddod i'r DU fel ymwelydd â chaniatâd i weithio am dâl (Permitted Paid Engagement visitor). Defnyddiwch yr arf **'gwirio os oes angen fisa arnaf'** i gael mwy o wybodaeth.

Os byddwch yn dod yma drwy Iwerddon ar ôl Ionawr 1, 2021 fel Ymwelydd â Chaniatâd i Weithio am Dâl, gallwch aros am hyd at un mis ar eich ymweliad cyntaf, ond dim ond hyd at saith diwrnod ar unrhyw ymweliadau pellach, os na wnaethoch chi adael yr Ardal Deithio Gyffredin yn y cyfamser.

Os ydych yn ymweld â'r DU er mwyn priodi neu ffurfio partneriaeth sifil, neu hysbysu ynglŷn â hyn, bydd angen i chi wneud cais ar ôl Gorffennaf 1, 2021 am **Fisa Priodas/Partneriaeth Sifil (Marriage/Civil Partnership Visa)**.

Os hoffech ymweld am fwy na chwe mis ar gyfer triniaeth feddygol breifat neu fel ymwelydd academaidd, bydd angen i chi wneud cais am **Fisa Ymwelydd Safonol (Standard Visitor Visa)**.

Os ydych yn ymweld â'r DU am resymau busnes, gallwch ddarllen mwy am **fewnforio ac allforio nwyddau i'r DU**.

## Astudio Byrdymor

Fel dinesydd o'r UE, gallwch gymryd rhan mewn astudiaeth fyrdymor. Rhaid bod pob astudiaeth nad sy'n weithgaredd hamdden gael ei gynnal o fewn sefydliad achrededig. Does dim angen i gyrsiau hamdden sy'n cael eu cynnal er dibenion hamdden, nad sy'n para mwy na 30 diwrnod ac nad sy'n arwain at unrhyw gymwysterau ffurfiol, gael eu cynnal mewn sefydliad achrededig.

Mae'r **daith lwybr astudio byrdymor (short-term study route)** o rhwng chwe mis i un mis ar ddeg o hyd, yn wahanol i brif daith lwybr myfyriwr ac mae angen i ymgeiswyr o bob cenedl gael fisa cyn teithio i'r DU. Mae'r trywydd hwn yn arbennig ar gyfer pobl sy'n cymryd cyrsiau Saesneg a does dim angen cael eich noddi ac nid yw'n caniatáu gweithio.

**Os ydych chi'n gobeithio astudio yn y DU am fwy na chwe mis, ewch at daith lwybr Myfyriwr (Student Route) ar GOV.UK i gael gwybod mwy.**

## Teithio i'r DU

O Hydref 1, 2021, ni fyddwch yn gallu defnyddio eich cerdyn UE, AEE na cherdyn hunaniaeth y Swistir i gael dod mewn i'r DU. Bydd angen i chi deithio gyda phasbort dilys.

Gallwch barhau i ddefnyddio'ch cerdyn hunaniaeth genedlaethol i ddod mewn i'r DU hyd at o leiaf Rhagfyr 31, 2025 os:

- eich bod wedi preswylio neu fod gyda chi statws cyn-breswylio o dan EU Settlement Scheme
- oes gyda chi drwydded waith y gororau (frontier worker permit)
- ydych yn Ymwelydd Gofal Iechyd S2 (S2 Healthcare Visitor)
- ydych yn Ddarparwr Gwasanaeth y Swistir (Swiss Service Provider)

**Ewch at teithio yn y DU ar GOV.UK i gael gwybod mwy.**

## Cynllun Preswylio'r UE (EU Settlement Scheme)

Os oeddech yn byw yn y DU cyn Rhagfyr 31, 2020, dylech chi a'ch teulu **EU Settlement Scheme** er mwyn cael parhau i fyw yn y DU ar ôl Mehefin 30, 2021. Y dyddiad olaf i wneud cais yw Mehefin 30, 2021.

**Ewch at y system pwyntiau mewnfudo System Pwyntiau Mewnfudo ar GOV.UK i gael gwybod mwy.**